



## Galwad Agored am Gyfarwyddwr i Elen Benfelen / Goldilocks

### Cyfle i Gyfarwyddo Sioe Ddwyieithog Nadolig i blant 3-6 oed yn Stiwdio Theatr y Sherman

Rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr sy'n siarad Cymraeg ac yn frwdfrydig dros theatr deuluol i gyfarwyddo ein Sioe Nadolig ar gyfer plant 3-6 oed.

Mae ein sioeau Nadolig yn y Stiwdio yn gyflwyniad perffaith i'r theatr i blant, ac eleni rydyn ni'n falch o gyflwyno *Elen Benfelen / Goldilocks* ag ysgrifennwyd gan un o ysgrifenywyr mwyaf cyffrous Cymru, Elgan Rhys.

Yn cynnwys cast o 3 Actor-Gerddor, bydd yr addasiad newydd yma yn olwg ffres a chyfoes ar y chwedl draddodiadol ac yn llawn hud a lledrith.

Bydd *Elen Benfelen / Goldilocks* yn agor yn Stiwdio'r Sherman cyn mynd ar daith 3 wythnos i leoliadau ar draws De Cymru, cyn dychwelyd adref i'r Sherman am weddill yr ŵyl Nadolig.

### Dyddiadau:

Bydd angen i'r Gyfarwyddwr fod ar gael o ddydd Llun 10 Hydref tan ddydd Sadwrn 5 Tachwedd 2022 ac o ddydd Llun 28 Tachwedd tan ddydd Sadwrn 3 Rhagfyr 2022.

### Ffi

Bydd ffi hollgynhwysol o £4200 yn cael ei dalu mewn rhandaliadau yn ystod y prosiect.

### Sut i wneud cais

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol at [artistdevelopment@shermantheatre.co.uk](mailto:artistdevelopment@shermantheatre.co.uk) erbyn canol dydd, dydd Gwener 27 Mai 2022

Rhowch fanylion am:

- Pam fod gennych ddi-ddordeb mewn gweithio ar y cynhyrhiad.
- Pam mai dyma'r cyfle cywir ar gyfer eich datblygiad proffesiynol.
- Eich profiad perthnasol a'r hyn y gallwch ei gyfrannu at y rôl